Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.ygggllantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* Mr R O'Neil

03.08.26

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Mae'n bleser ac yn fraint gennyf rannu ein harolygiad Estyn diweddar â chi:

- **Adroddiad llawn**
- **Adroddiad cryno**

Mae'r adroddiad hwn yn gydnabyddiaeth wych o'r ymroddiad, yr uchelgais a'r gwaith caled sy'n gwneud ein hysgol yn lle mor arbennig i ddysgu a gweithio ynddo. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad ein disgyblion, proffesiynoldeb a gofal ein staff, y gefnogaeth a'r her adeiladol a ddarperir gan ein Corff Llywodraethu a'r bartneriaeth werthfawr sydd gennym gyda holl randdeiliaid cymuned yr ysgol. Yn wir, mae'r adroddiad yn ddathliad o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd.

Yn bwysicaf oll, mae'r adroddiad yn cydnabod rhinweddau rhagorol ein disgyblion. Roedd eu hagweddau cadarnhaol, eu brwdfrydedd dros ddysgu, eu hymddygiad, eu lles a'u parodrwydd i gyfrannu at fywyd yr ysgol yn amlwg drwy gydol y broses arolygu. Dylent fod yn hynod falch o'r canmoliaeth a gawsant ac o'r rôl allweddol y maent yn ei chwarae yn llwyddiant ein hysgol.

Hoffwn hefyd gydnabod ymroddiad eithriadol ein staff. Bob dydd, maent yn gweithio'n ddiflino i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog, cefnogi anghenion unigol a chreu amgylchedd lle gall pob plentyn ffynnu. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu eu harbenigedd, eu hangerdd a'u hymrwymiad diwyro i sicrhau'r cyfleoedd a'r deilliannau gorau posibl i'n dysgwyr.

Mae ein Llywodraethwyr hefyd yn haeddu cydnabyddiaeth arbennig am eu cefnogaeth, eu harweiniad a'u hymrwymiad parhaus; gan sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod yn ffocysu ar ddarparu addysg o'r safon uchaf. Hoffwn ddiolch hefyd i'n rhieni a'n gofalwyr. Mae eu hymddiriedaeth, eu hanogaeth a'u cefnogaeth yn rhan hanfodol o'n llwyddiant.

Nodwyd dau faes o arfer da yn ystod yr arolygiad, a gafodd eu hamlygu fel 'Cipluniau' - enghreifftiau o gryfderau arbennig yr ysgol:

Ciplun: Cymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm
Ciplun: Llais y disgybl i gefnogi lles disgyblion

Mae cael y meysydd hyn o'n gwaith wedi'u cydnabod fel arfer arbennig yn gyflawniad sylweddol iawn. Maent yn adlewyrchu'r arloesedd, y cydweithio a'r disgwyliadau uchel sydd wrth wraidd ein gwaith ac yn dangos yr effaith gadarnhaol a gawn ar ein dysgwyr.

Mae'r adroddiad yn cynnwys un argymhelliad yn unig, sef:

Darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu a chwarae annibynnol tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Rydym yn falch bod yr argymhelliad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â blaenoriaeth a oedd eisoes wedi'i nodi yn ein Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer eleni. Trwy ein prosesau hunanwerthuso cadarn, roeddem eisoes wedi adnabod y maes hwn fel un ar gyfer datblygiad pellach ac roedd gwaith eisoes ar waith i fynd i'r afael ag ef. Byddai'r flaenoriaeth hon hefyd wedi'i chynnwys yn ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Felly, mae'r argymhelliad yn gadarnhad gwerthfawr ein bod wedi nodi'r meysydd cywir ar gyfer gwelliant parhaus.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* Mr R O'Neil

Fel Pennaeth, ni allwn fod yn fwy balch o gael arwain ysgol mor lwyddiannus. Mae'r adroddiad hwn yn dathlu llawer mwy na deilliannau a darpariaeth; mae'n dathlu'r bobl sy'n gwneud yr ysgol hon yn gymuned ofalgar, uchelgeisiol a bywiog. Mae'n cadarnhau'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod, sef wrth i ni gydweithio, y gallwn gyflawni pethau arbennig.

Er ein bod yn hynod falch o ganfyddiadau'r adroddiad, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella'n barhaus. Byddwn yn adeiladu ar ein cryfderau niferus, yn croesawu'r argymhelliad fel cyfle i ddatblygu ymhellach ac yn parhau i sicrhau'r profiadau addysgol gorau posibl i bob plentyn.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ac am y rhan rydych yn ei chwarae yn llwyddiant ein hysgol. Rwy'n eich annog i ddarllen yr adroddiad llawn ac i ymuno â ni wrth ddathlu'r cyflawniad pwysig hwn.

Yn gywir,



Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.ygggllantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

03.08.26

Dear Parents / Carers,

I am absolutely delighted to share with you our recent Estyn inspection report:

- *Full report*
- *Summary report*

This report is a wonderful recognition of the collective efforts, commitment and ambition that make our school such a special place to learn and work. It reflects the dedication of our pupils, the professionalism and care of our staff, the strategic support and challenge provided by our Governing Body and the encouragement and partnership of all members of the school community. The report is very much a celebration of what we have achieved together.

Most importantly, the report recognises the tremendous qualities of our pupils. Their positive attitudes, enthusiasm for learning, behaviour, wellbeing and willingness to contribute to school life were evident throughout the inspection process. They are at the heart of everything we do and should feel incredibly proud of the praise they have received.

I would also like to acknowledge the outstanding commitment of our staff team. Every day they work tirelessly to provide rich learning experiences, support individual needs and create an environment where children can thrive. The report reflects their expertise, passion and unwavering dedication to securing the best possible outcomes for our learners.

Our Governors deserve great credit for their continued support, guidance and leadership, helping to ensure that the school remains focused on delivering excellence. I would also like to thank our parents and carers, whose encouragement, trust and partnership play such a vital role in our success.

Estyn identified two particular areas of very good practice during the inspection, which have been highlighted as 'Spotlights' outlining two examples of the school's strengths:

> *Spotlight: Applying pupils' literacy and numeracy skills across the curriculum*
> *Spotlight: The pupil's voice supporting pupils' well-being*

To have these aspects of our work recognised in this way is a great achievement. They reflect the innovation, teamwork and high expectations that are embedded throughout the school and demonstrate the positive impact our work is having on learners.

The report includes just one recommendation, which is:

> *Provide regular opportunities for the youngest pupils to develop their independent learning and play skills both inside and outside the classroom.*

We are pleased that this recommendation aligns directly with a priority already identified within our current School Development Plan. As part of our robust self-evaluation processes, we had already recognised this as an area for further development and improvement. Consequently, this work is already underway and would have remained a key priority within our planning for the next academic year. The recommendation therefore provides valuable affirmation that our improvement journey is focused on the right areas and will help us continue to strengthen our provision even further.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

As Head Teacher, I could not be prouder to lead such a successful school. The report celebrates much more than outcomes and provision; it celebrates the people who make this school the vibrant, caring and ambitious community that it is. It confirms what we already know: that by working together, great things can be achieved. While we are delighted with the findings of the report, we remain committed to continuous improvement. We will build on our many strengths, embrace the recommendation as an opportunity for further growth and continue striving to provide the very best educational experiences for every child.

Thank you for your continued support and for the role you play in the success of our school. I encourage you to take the time to read the full report and join us in celebrating this significant achievement.

Yours sincerely,

